ATODLEN 2 Rheoliad 4

## AMODAU YCHWANEGOL Y MAE'N RHAID CADW IEIR DODWY MEWN CEWYLL BATRI ODANYNT

**1.** Rhaid i bob cawell gydymffurfio â'r gofynion canlynol —

(a) rhaid i arwynebedd y cawell, wedi'i fesur ar blan llorweddol, ar gyfer pob iâr ddodwy beidio â bod yn llai —

(i) na 1000cm$^2$ pan gedwir un iâr yn y cawell;

(ii) na 750 cm$^2$ pan gedwir dwy iâr yn y cawell;

(iii) na 550 cm$^2$ pan gedwir tair iâr yn y cawell; a

(iv) na 450 cm$^2$ pan gedwir pedair neu fwy o ieir yn y cawell;

(b) rhaid i isafswm arwynebedd y cawell ar gyfer pob iâr ddodwy allu cael ei ddefnyddio heb gyfyngiad a gall gynnwys y fan lle mae'r plât ar gyfer dargyfeirio deunydd nad yw'n wastraff (a elwir fel arall yn gard wyau) wedi'i roi cyhyd â bod modd defnyddio'r fan honno;

(c) rhaid darparu cafn bwyd nad yw ei hyd yn llai na 10 cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell ac y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad;

(ch) ac eithrio pan ddarperir pigynnau dŵr a chwpanau dŵr, rhaid i'r cawell gael sianel yfed barhaol na fydd yn llai na 10cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell, ac y gellir ei defnyddio heb gyfyngiad;

(d) pan geir pwyntiau yfed wedi'i plymio, rhaid cael o leiaf ddau bigyn yfed neu ddau gwpan yfed o fewn cyrraedd y cawell;

(dd) rhaid i uchder y cawell, am 65% o'i arwynebedd, beidio â bod yn llai na 40 cm, ac am weddill yr arwynebedd, rhaid iddo beidio â bod yn llai na 35 cm (ceir yr uchder drwy gyfrwng llinell fertigol o'r llawr i'r pwynt agosaf yn y to a cheir yr arwynebedd drwy luosi 450cm$^2$ â nifer yr adar a gedwir yn y cawell);

(e) rhaid adeiladu llawr y cawell fel y gall gynnal yn ddigonol bob un o'r crafangau sy'n wynebu ymlaen ar bob troed; ac

(f) rhaid i ogwyddiad y llawr beidio â bod yn fwy na 14% neu 8 gradd, pan yw wedi'i wneud o rwyllau gwifrog petryalog, a 21.3% neu 12 gradd ar gyfer mathau eraill o lawr.

**2.** Rhaid i gewyll batri gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn y fath fodd ag i atal unrhyw anaf neu ddioddefaint diangen i ieir dodwy i'r graddau sy'n bosibl yn sefyllfa bresennol technoleg.

**3.** Rhaid i ddyluniad a maint agoriad y cawell fod yn gyfryw fel y gellir rhoi ieir dodwy i mewn neu eu codi allan heb beri anaf na dioddefaint diangen iddynt.

**4.** Rhaid i'r cewyll fod wedi'u cyfarparu a'u cynnal yn addas i rwystro'r ieir dodwy rhag dianc.

**5.** Ac eithrio pan fydd triniaeth therapiwtig neu broffilactig yn mynnu fel arall, rhaid i bob iâr ddodwy gael cyfle i fynd at fwyd iachus, maethlon a hylan bob dydd mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da ac i fodloni eu hanghenion maethiadol, ac i dŵr yfed ffres digonol bob amser.

**6.** Rhaid i'r ieir dodwy dderbyn gofal gan bersonél sydd â gwybodaeth a phrofiad digonol o'r system gynhyrchu a ddefnyddir.

**7.** Rhaid i'r haid neu'r grwp o ieir dodwy gael eu harchwilio'n drwyadl o leiaf unwaith y dydd a rhaid trefnu bod ffynhonnell o olau (sefydlog neu symudol) ar gael sy'n ddigon cryf i weld pob aderyn yn glir.

**8.** Rhaid peidio â defnyddio llety sy'n cynnwys mwy na thair haen o gewyll onid oes dyfeisiau neu fesurau addas yn ei gwneud yn bosibl archwilio pob haen yn drwyadl heb anhawster.

**9.**—(1) Pan fydd yn ymddangos nad yw ieir dodwy mewn iechyd da neu eu bod yn dangos newidiadau ymddygiad, rhaid cymryd camau i ddarganfod yr achos a chymryd y camau adfer priodol.

(2) Pan fydd angen cymryd camau adfer o dan is-baragraff (1) uchod, rhaid rhoi ystyriaeth i'r mathau canlynol o gamau —

(a) rhoi triniaeth;

(b) ynysu;

(c) cwlio;

(ch) cywiro ffactorau amgylcheddol; a

(d) unrhyw fath arall o gamau adferol y mae ei angen.

(3) Os olrheinir achos y mae problemau iechyd neu ymddygiad y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod i ffactor amgylcheddol yn yr uned gynhyrchu nad yw'n hanfodol ei adfer ar unwaith, rhaid cymryd camau adfer cyn gynted ag sy'n ymarferol, a beth bynnag pan yw'r llety yn cael ei wagio nesaf a chyn i'r llwyth nesaf o ieir dodwy gael eu rhoi yno.

**10.**—(1) Bob tro y mae'r holl gewyll a gedwir gyda'i gilydd yn cael eu gwagio rhaid eu glanhau'n a'u diheintio'n drylwyr cyn rhoi'r llwyth nesaf o ieir dodwy yno.

(2) Pan fydd ieir yn y cewyll, rhaid cadw'r arwynebau a'r holl offer yn foddhaol lân.